# Cynnwys, ysbrydoli a grymuso'r genhedlaeth nesaf

Paula Griffiths, Rheolwr Partneriaeth, Ymestyn yn Ehangach

## Cefndir a chyd-destun

Mae Ymestyn yn Ehangach yn rhaglen gydweithredol ledled Cymru gyda phrifysgolion, colegau ac ysgolion yn cydweithio i wella symudedd cymdeithasol trwy ehangu mynediad i bob math o addysg uwch (AU).

Nod y rhaglen genedlaethol hon, a ariennir gan Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yw cynyddu cyfranogiad mewn AU gan grwpiau sy'n cael eu tan gynrychioli, trwy ehangu dyheadau a sgiliau addysgol, yn ogystal â chreu cyfleoedd astudio a llwybrau dysgu arloesol.

Mae tair partneriaeth Ymestyn yn Ehangach, pob un dan arweiniad prif bartner sefydliadol: Mae De-orllewin Cymru dan arweiniad Prifysgol Abertawe; prif bartner De-ddwyrain Cymru yw Prifysgol De Cymru, ac arweinir Gogledd a Chanolbarth Cymru gan Brifysgol Bangor.

## Mynediad a chyfiawnder: cenhadaeth graidd

Cenhadaeth Ymestyn yn Ehangach yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i ystyried AU, waeth beth fo'u cefndir. Gall llawer o ddysgwyr, yn enwedig y rhai o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, deimlo bod prifysgol allan o'u cyrraedd oherwydd pryderon ariannol, diffyg profiad teuluol o AU, neu ddiffyg cysylltiad â'r llwybrau sydd ar gael. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau hyn trwy ddarparu canllawiau clir, profiadau ymarferol, a chefnogaeth wedi'i theilwra i helpu plant a phobl ifanc i weld bod AU yn opsiwn hyfyw iddyn nhw.

Mae grwpiau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach, fel y'u nodwyd gan Medr,[1] yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC):

- pobl ifanc ac oedolion sy'n byw yn y ddau gwintel isaf o'r MALlC
- dysgwyr sydd â phrofiad o'r system ofal o bob oed a gofalwyr (waeth beth fo'r MALlC).

O fewn y ddau gwintel MALlC isaf, mae'r rhaglen yn blaenoriaethu ymhellach:

- pobl ag anableddau
- pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig
- dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymru.

[1] CCAUC (2021) Canllawiau Rhaglen Ymestyn yn Ehangach,

**Gweithgareddau ymgysylltu**

Mae Ymestyn yn Ehangach yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli plant a phobl ifanc trwy amrywiaeth eang o brofiadau ymarferol.

- **Ymweliadau â champysau prifysgol a choleg a sesiynau blasu**
  Caniatáu i bobl ifanc gael profiad uniongyrchol o fywyd coleg a phrifysgol
- **Sesiynau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad**
  Helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu haddysg a'u gyrfaoedd
- **Gweithdai creadigol a phenodol i bynciau**
  Rhoi mewnwelediad i wahanol gyrsiau a llwybrau gyrfa. Annog archwilio ystod eang o bynciau
- **Rhaglen Fentora Genedlaethol Ymestyn yn Ehangach**
  Cysylltu dysgwyr ifanc â modelau rôl y gallant uniaethu â nhw, i chwalu'r dirgelwch sy'n perthyn i AU a'u helpu i fod yn fwy gwybodus ac yn fwy parod i gymryd eu camau nesaf, gan gynnwys llywio prosesau UCAS a chyllid myfyrwyr a datblygu sgiliau astudio.

**Chwalu rhwystrau i lwyddiant**

Mae Ymestyn yn Ehangach yn gweithio'n gydag ysgolion blaenoriaeth a ddynodwyd, yn ogystal â sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir, gan gynnwys gofalwyr ifanc, myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal, dysgwyr Croenddu a Lleiafrifol Ethnig a'r rhai ag anableddau yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo.

Mae ein hymdrechion penodol yn cefnogi dysgwyr oedran 10 ac ymlaen trwy:

**Codi dyheadau addysgol**
Grymuso myfyrwyr i gredu yn eu potensial

**Darparu canllawiau a gwybodaeth**
Helpu dysgwyr i archwilio pob llwybr sydd ar gael

**Hyrwyddo'r gymraeg a diwylliant Cymru**
Hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg o fewn gyrfaoedd ac annog dysgwyr Cymraeg ail iaith

**Cynorthwyo â phontio**
Helpu myfyrwyr ar bwyntiau trosglwyddo allweddol fel cynradd i uwchradd, uwchradd i AB, AB i AU

**Datblygu a gwella sgiliau**
Cryfhau talentau a galluoedd newydd a'r rhai sy'n bodoi eisoes

**Ysbrydoli ac ysgogi**
Annog dysgwyr i archwilio gyrfaoedd a chyfleoedd yn y dyfodol

**Effaith a Deilliannau**

Trwy’r rhaglen Ymestyn yn Ehangach, ein nod yw gweithio gyda’r un dysgwyr sy’n cael eu tangynrychioli trwy gydol eu taith o’r ysgol i AU. Mae ystadegau ar gyfer ymgysylltu felly’n cynnwys cyfuniad o bobl ifanc a allai fod wedi cymryd rhan mewn ychydig o weithgareddau ochr-yn-ochr ag eraill yr ydym wedi ymgysylltu â nhw dros gyfnod hirach. Mae cipolwg ar ddarpariaeth Ymestyn yn Ehangach ledled Cymru ar gyfer 2023/2024 yn dangos y nifer fawr o bobl sy'n elwa o'n rhaglen.

- Cymerodd 17,570 o blant, pobl ifanc ac oedolion ran mewn gweithgareddau Ymestyn yn Ehangach
- Bu 95,570 awr o ymgysylltu
- Roedd 70% o'r bobl yr oeddem wedi ymgysylltu â nhw’n dod o dan y meini prawf cymhwysedd ar gyfer Ymestyn yn Ehangach
- Derbyniodd 40% o'r cyfranogwyr dros 6 awr o ymgysylltiad.

‘Fel athro, rwy'n teimlo bod y digwyddiad wedi'i anelu'n berffaith at fyfyrwyr yr oedran hwn - roedd yn sicr yn darparu her, ond roedd trefniadaeth a strwythur meddylgar y diwrnod yn golygu y gallai myfyrwyr barhau i ymgysylltu a bod hyd yn oed yr agweddau anoddach yn hygyrch. Mae'r adnoddau'n gwbl briodol, a gellir eu defnyddio o fewn yr ysgol nawr!"’
Athro

‘Diolch i’ch cymorth chi, llwyddodd 60 o’n disgyblion i fynychu digwyddiad croeso diweddar mewn prifysgol a mwynhau profiad gwerthfawr o archwilio’r campws. Mae ein hysgol wedi'i lleoli yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n hanfodol bod plant o gymunedau o'r fath yn cael eu cefnogi ym mhob ffordd bosibl i godi eu dyheadau a'u helpu i gael mynediad at addysg bellach ac uwch. Mae eich cefnogaeth i'r ymweliad hwn nid yn unig wedi darparu diwrnod cofiadwy i'n disgyblion, ond mae hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth eu hannog i weld prifysgol fel lle maen nhw'n perthyn iddo.’
Cadeirydd y Llywodraethwyr

‘Mae'r profiadau rydw i wedi'u cael heddiw yn anhygoel ac yn ddiddorol iawn, ac fe wnes i fwynhau dysgu beth rydych chi'n ei wneud fel myfyriwr. Hoffwn i wir fynd i'r brifysgol nawr.’
Disgybl ysgol uwchradd

**Edrych ymlaen: dyfodol o gyfleoedd**

Mae Ymestyn yn Ehangach wedi ymrwymo i wneud addysg yn wirioneddol gynhwysol. Trwy barhau i ddatblygu ein rhaglen fentora ac ehangu ein gwaith allgymorth, ein nod yw creu effaith barhaol ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i ddatgloi cyfleoedd a allai fod wedi ymddangos y tu hwnt i'w cyrraedd ar un adeg.

Gyda'n gilydd, rydym yn cynnwys, yn ysbrydoli ac yn grymuso'r genhedlaeth nesaf i gyflawni eu hamcanion a chael mynediad at yr addysg y maent yn ei haeddu.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.reachingwider.ac.uk/cy/

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research